# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (227)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf.

.........................................

**14.24**

### Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio.

.........................................

**15.18**

### Eitem 3: Dadl ar ail adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE

**NDM4580 Rhodri Morgan (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Ail Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Gorffennaf 2010.

*Noder: Gosodwyd ymateb y Prif Weinidog yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2010.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

.........................................

**16.00**

### Eitem 4: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4578 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder yr anawsterau a achoswyd i'r GIG yng Nghymru gan setliadau ariannol gwael; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i'r GIG drwy warchod setliadau ariannol yn y dyfodol rhag toriadau.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **9** | **0** | **35** | **44** |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr anawsterau a fydd yn wynebu'r GIG yng Nghymru yn sgil Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant anflaengar Llywodraeth y DU.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymrwymo i warchod setliadau ariannol y gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **29** | **0** | **15** | **44** |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai'r brif flaenoriaeth ar gyfer GIG Cymru yw sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **15** | **0** | **29** | **44** |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr anawsterau a fydd yn wynebu'r GIG yng Nghymru yn sgil Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant anflaengar Llywodraeth y DU.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymrwymo i warchod setliadau ariannol y gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **29** | **0** | **15** | **44** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

.........................................

**16.54**

**Eitem 5: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 'Adolygiad pellach o Ddatblygiadau yn Narpariaeth Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'**

**NDM4581 Helen Mary Jones (Llanelli)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc "Adolygiad pellach o ddatblygiadau yn narpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2010.

*Noder: Gosodwyd ymateb y Dirprwy Weinidog dros Blant i'r adroddiad hwn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2010.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

.........................................

**17.21**

**Eitem 6: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**NDM4582 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod y GIG yn hanfodol bwysig wrth hyrwyddo a chynnal iechyd pobl yng Nghymru.

2. Yn nodi:

(a) bod tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid yn awgrymu nad ydym yn defnyddio hyd at £1bn o gyllideb y GIG yn briodol;

(b) bod y gwaith a wnaethpwyd gan McKinsey and Co. wedi dod i'r casgliad bod strategaethau'r Llywodraeth yn ariannol anfforddiadwy, bod yna ddiffyg atebolrwydd ac nad oes capasiti i'w cyflawni; a

(c) mae tystiolaeth gan Ymddiriedolaeth Nuffield yn awgrymu bod gofal iechyd yn waeth yng Nghymru nag mewn sawl rhan o Loegr, er bod lefelau cyllido'n uwch.

3. Yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i geisio sicrhau mwy o werth am arian, arweinyddiaeth gryfach a gwelliannau o un flwyddyn i'r llall ym maes gwasanaethau iechyd i gleifion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

(a) cymryd camau ar fyrder i sicrhau gwariant mwy effeithiol yn y GIG, arweinyddiaeth strategol gryfach a gwell canlyniadau i gleifion, a

(b) ymchwilio ar fyrder faint o'r £1 biliwn nad ydym yn ei ddefnyddio'n briodol y gellid ei ailgyfeirio tuag at wasanaethau rheng flaen, ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar gynnydd mewn perthynas â chyflawni'r amcan hwn.

*Mae Adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield: Funding and Peformance of Healthcare Systems in the Four Countries of the UK Before and After Devolution ar gael yn:*

*http://www.nuffieldtrust.org.uk/publications/detail.aspx?id=0&PRid=675 (Saesneg yn unig)*

*Mae Cofnod o Gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 22 Hydref 2009 ar gael yn:*

*http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-fin-home/bus-committees-third-fin-agendas.htm?act=dis&id=149426&ds=10/2009#nhs*

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 29 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i adlewyrchu pwysigrwydd y GIG yng Nghymru drwy warchod gwariant ar iechyd'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 35 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

'a staff'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **9** | **0** | **35** | **44** |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**.........................................**

**18.27**
**Cyfnod pleidleisio**

**.........................................**

**18.30**
**Eitem 7: Dadl Fer**

**NDM4579 Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Cymunedau ac Ymdeimlad o Hunaniaeth

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.46.**

**.........................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 16 Tachwedd 2010**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**